# Geiriau'r bywyd yn Gymraeg

Gyferbyn fe welwch gopi o ddalen flaen Testament Newydd William Salesbury 1567 - union faint y gwreiddiol, a'r un lliwiau. Mae copïau cyflawn yn brin ac amhosibl eu prisio. Ond daeth copi anghyflawn heb wyneb-ddalen ac fe'i prynwyd yn arwerthiant Bonham's ar Dachwedd 16, 1989, am £1,700 gan Dafydd Wyn Wiliam, Bodedern.

Gan gynnwys y copi yma ni wyddom am fwy na saith ar hugain o'r Testament yma. Mae deg copi yn y Llyfrgell Genedlaethol ond dim ond tri sy'n gyflawn. Dyma'r hyn a wyddys am y gweddill:

T. I. Ellis *John Humphrey Davies* (1963) tt 158/59 - prynodd J. H. Davies gopi yn 1900 am £26.

Yn *Y Clorianydd* 5 Gorffennaf 1939, t. 3 ceir cofnod am werthu copi yn Llundain.

Ceir copi yn llyfrgell Eglwys Gadeiriol Henffordd.

Prynwyd copi a ddaeth o Lyfrgell Mostyn yn Llundain yn 1979 am £3,500.

Ceir dau gopi amherffaith gan Gymdeithas Feiblaidd Prydain a Thramor.

Ceir o leiaf dri chopi yn America - yn Llyfrgelloedd Morgan, Harvard a Newberry.

Ceir pum copi anghyflawn yn Llyfrgell Coleg Prifysgol Gogledd Cymru.

Rhoddwyd copi ar werth gan Bernard Quaritch yn 1885 ac amcangyfrifid mai 15,000 doler oedd ei werth.

Buasai'n dda gennym glywed os gŵyr rhywun am ychwaneg o gopïau.



Testament
Newydd ein Arglwydd
IESV CHRIST.

Gwedy ei dynnu, yd y gadei yr ancyfiaith, 'air yn ei gylydd or Groeca'r Llatin, gan newidio ffurf llythyreu y gairiac-dodi. Eb law hyny y mae pop gair a dybiwyt y vot yn andeallus, ai o ran llediaith y 'wlat, ai o ancynefinder y deunydd, wedy ei noti ai eglurhau ar 'ledemyl y tu dalen gydrychiol.

vot golauni ir byt, a' charu o ddynion y tywyllwch

Gair Dew

Hon yw'r varnedigeth, gan ddy-

yn bwy na'r golauni. Ioan iij. c.

Matheu xiii.f.

Gwerthwch a veddwch o vudd
(Ll'yma'r Man lle mae'r modd
Ac mewn ban angen ny bydd)
I gael y Perl gwl hap wedd.

# TOCYN PWY?

Gan CHARLES PARRY

DARLLENAIS lythyr D. Tecwyn Lloyd yn rhifyn Nadolig 1989 o'r 'Casglwr'. Credaf mai tocyn perchnogaeth Aneurin Williams, Caernarfon, yw'r un y mae yn holi amdano.

Mae copi o'r tocyn yng nghasgliad Syr Evan Davies Jones o docynnau perchnogaeth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Ysgrifennwyd y geiriau 'of Carnarvon' arno mewn pensil.

Roedd Aneurin Williams yn gasglwr tocynnau perchnogaeth a chyhoeddwyd catalog o'i gasgliad gan y Llyfrgell Genedlaethol yn 1938. Herbert Millingchamp Vaughan yw awdur y catalog. Nid oes sôn ynddo, fodd bynnag, am y tocyn 'sator'.

Yn y rhagymadrodd ceir gwybodaeth fywgraffyddol am Aneurin Williams. Trigai yn Menai View, Caernarfon. Fe'i ganwyd yn 1855 yn fab i John Williams, 'Ioan Mai'. Roedd yn gasglwr llyfrau a labeli perchnogaeth llyfrau. Bu'n aelod o'r Cambrian Archaeological Association ac o'r Welsh Bibliographical Society.

Bu farw yng Nghaernarfon ar yr unfed ar bymtheg o Ragfyr, 1935. Mae pwt am ei farw yn rhifyn y trydydd ar hugain o Ragfyr, 1935, o'r 'Herald Cymraeg'. Yno dywedir iddo, yn gynnar ar ei oes, fod mewn busnes gwerthu llyfrau gyda'i dad.


Yn yr un rhifyn o'r 'Casglwr' gwelais nodyn diddorol G. G. Evans ar lyfrau Pabyddol cynnar. Dywed iddo fethu â gweld cofnod am sawl un ohonynt yn 'Libri Walliae'. Wyth o'r deg a restrir sy'n dod i mewn i gyfnod 'Libri Walliae' ac y mae pob un ohonynt yn ymddangos ynddo.

Hefyd, mae'n cynnwys 'Yny lhyvyr hwnn'. Tybed a fu i'r awdur roi ffydd gormodol yng nghywirdeb y rhestr deipiedig a welodd ac mai dyna pam y methodd olrhain pump o'r wyth gwaith yn y llyfryddiaeth.

Nid yw rhai o'r teitlau yn y rhestr yn gywir, mae i ambell un awdur nas enwir o gwbl, ac mae dyddiad o leiaf ddau yn anghywir. Gall y mynegeion helaeth sydd i'r llyfryddiaeth fod yn fuddiol iawn - tybed a gawsant eu defnyddio?

Ymddengys fod rhif 4 ar y rhestr wedi achosi cryn drafferth. Onid Libri Walliae 3956 yw hwn gyda'r geiriau Lladin sy'n y teitl, ef 'Opus catechisticum', yn gyfystyr â 'Holwyddoreg'?

Gyda llaw, 'Y Drych Cristianogawl' yw'r gwaith a argraffwyd mewn ogof ger Rhiwledyn ac nid 'Athrauaeth Gristnogaul'. Ceir y wybodaeth yn gywir yn 'Libri Walliae'.




# Noson fawr y Brawd Llwyd

*I DDATHLU'R ffaith fod Prifysgol Cymru wedi cynnig gradd Doethur i D. Tecwyn Lloyd, sy'n Gadeirydd Cymdeithas Bob Owen, fe drefnodd cyfnither iddo i fynd ag ef a'i briod Gwyneth allan am ginio a chytunwyd ar y noson.*

*Ond pan gyrhaeddodd y Brawd Llwyd a'i briod hawddgar y bwrdd bwyd yng Ngwesty'r Cyfnod yn Y Bala, cafodd y ddau sioc. Yr oedd cryn hanner cant o aelodau o gylch llenyddol Edeyrnion yno wrth y byrddau yn eu haros i'w llongyfarch heb yn wybod i'r un o'r ddau. Roedd y tynnwr coes mawr wedi cael tynnu ei goes ei hunan yn llwyddiannus.*

*Ond daeth Mr Lloyd tros y sioc pan ddeallodd nad efô oedd i dderbyn y bil a chafodd nid yn unig ginio am ddim ond y pleser o wrando ar deyrngedau iddo nid yn unig gan ei bobl ei hun ond gan lu o wahanol rannau o Gymru.*

*Hen ysgol Tŷ Tan Domen — hen ysgol Tecwyn yw adeilad Y Cyfnod ac un a fu'n gyd-ddisgybl ag ef yno, Meirion Roberts, a gynlluniodd y fwydlen. Ar y clawr yr oedd darlun o'r Llwyd yn stelcian gyda'i wn cyn tanio ar rywbeth neu ar rywun.*